**Cyfarwyddiaeth Cynllunio**
**Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Richard Matthams
Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygiadau
Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Y Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4WB

25 Mehefin 2018

Annwyl Richard

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Cyfnewid 1af**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Diolch ichi am eich e-bost dyddiedig 21 Mehefin, yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gymeradwyo amserlen arfaethedig Cytundeb Darparu'ch Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Mae'r Cytundeb Darparu yn deillio o broses adolygu'ch CDLl (Rheoliad 41) a gafodd ei fabwysiadu ym mis Medi 2013.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw cynnal system gynllunio fodern sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynllunio a chynlluniau y gellir eu cyflawni. Yn unol â'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (paragraff 10.2.5), dylid llunio cynllun newydd mewn llawer llai na 4 blynedd. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at eich awdurdod ar 29 Mawrth 2018 i ofyn iddo lunio CDLlau ymhen 3.5 blynedd ar ôl i'r broses ddechrau'n swyddogol, gydag un cyfnod ychwanegol o 3 mis os bydd angen.

Mae dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i lunio CDLl. Mae CDLl hefyd yn adnodd corfforaethol sy'n nodi blaenoriaethau yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran defnyddio tir wrth ymdrin â materion lleol a chenedlaethol. Felly, mae'r Cytundeb Darparu'n ymrwymo i gynnal y dyletswyddau allweddol hyn. Bydd angen rheoli prosiectau'n effeithiol a chael adnoddau priodol er mwyn sicrhau na fydd angen mwy na'r 3 mis ychwanegol a bod modd mabwysiadu'r cynllun yn unol â'r amserlen a nodir yn adran 3.9 o'r Cytundeb Darparu arfaethedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar y broses adolygu ac mae'n croesawu'r ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i lunio cynllun newydd. Mae'ch Cytundeb Darparu yn nodi y caiff y

Planning Directorate •Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ
Cyfarwyddiaeth Cynllunio• Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

cynllun newydd ei fabwysiadu ym mis Awst/ Medi 2021 a bydd cyfnod ychwanegol o 3 mis os bydd angen. Rydym yn croesawu'ch ymateb cadarnhaol i ddisgwyliadau Ysgrifennydd y Cabinet, ac yn arbennig ymrwymiad eich Cyngor i ddarparu'r holl adnoddau ar gyfer y cynllun o ran cyllid a staff.

Felly, ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, rwy'n gallu cymeradwyo'ch amserlen yn unol ag adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015.

Dylech sicrhau nawr fod fersiwn derfynol eich Cytundeb Darparu ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliad 10. Nodwch, yn ogystal â chadw at ofynion y rheoliadau, dylech anfon un copi caled o'r cytundeb i Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Mark Newey**
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

*Drwy e-bost a'r ffôn*